

PARCELL, GEORGE HENRY (1895 - 1967), cerddor

Enw: George Henry Parcell
Dyddiad geni: 1895
Dyddiad marw: 1967
Priod: Irene Parcell (née Ackerman)
Rhiant: Elisabeth Parcell
Rhiant: Henry Parcell
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: Richard Leonard Hugh

Ganwyd 18 Tachwedd 1895 yn Heol Caerfyrddin, Fforest-fach ger Abertawe, mab Henry ac Elisabeth Parcell. Glöwr ydoedd fel ei dad. Llafuriodd gydol ei oes yng nglofa Garn-goch, Gorseinon. Er yn blentyn amlygodd ddawn arbennig mewn cerddoriaeth a defnyddiodd ei oriau hamdden i ddatblygu ei alluoedd cynhenid. Heb unrhyw hyfforddiant ffurfiol nac athro o fath yn y byd enillodd ddwy ddiploma yng Ngholeg Coffa Curwen, Llundain : A.T.S.C. (1950) ac L.T.S.C. (1952). Bu'n organydd (1922-27) ac arweinydd y gân (1927-65) yn Saron (A), Gendros ger Abertawe; yn ôl gohebydd yr *Evening Post* dewiswyd ef i'r swydd olaf allan o naw ymgeisydd gyda brwdfrydedd mawr. Apwyntiwyd ef hefyd yn gôr-feistr côr meibion Fforest-fach. Cyfansoddodd dros ugain o donau, nifer ohonynt yn fuddugol mewn eisteddfodau megis 'David ', 'Wig', 'Yr Allt' ac un anthem fechan 'Duw sy'n noddfa a nerth', y cwbl yn syml a graenus heb fod yn uchelgeisiol. Lluniwyd hwy ar gyfer cynulleidfaoedd yr eglwysi a gwyddai'r awdur fesur yr adnoddau. Rhoddodd enw ei wraig 'Irene' ar un o'i donau gorau a bu cryn fri ar ei dôn 'Marchog Iesu' ar eiriau [Williams Pantycelyn](#), 'Mae'r Iesu yn myned i ryfel', mewn cymanfaoedd yng Nghymru ac America - recordiwyd hi gan Gôr Godre'r Aran. Cyhoeddwyd detholiad o'i weithiau mewn rhaglen arbennig a dathlwyd yr achlysur mewn Sul o fawl yn y Gendros 28 Mai 1950, ' fel arwydd o barch ac o ddyled am lafur cyson a didâl '. Yr oedd ei aelwyd yn ' Mile End ' yn academi cerdd mewn gwirionedd a'r drws yn llydan agored i groesawu efrydwy'r, heb ddimai o dâl. O dan ei ddylanwad datblygodd Fforestfach yn ganolfan diwylliant cerddorol o'r radd flaenaf. Tyrrai pobl o rannau gwahanol y wlad i'r cyngherddau blynyddol yng nghapel Saron i wrando'r côr ac artistiaid byd-enwog yn perfformio gweithiau'r meistri. Uwchlaw popeth dysgodd do ar ôl to i feistroli'r tonic solffa a thrwy hynny eu galluogi i ganu emyn ac anthem mewn pedwar llais. Ni ellir meddwl am ganiadaeth y cysegr yng Nghymru heb gofio am ei gyfraniad ef a rhai tebyg iddo. Yn y cyswllt hwn cynrychiola genhedlaeth o gymwynaswyr na ellir yn hawdd orfesur ei phwysigrwydd. Priododd Irene Ackerman, 26 Rhagfyr 1929. Bu farw 8 Mawrth 1967 a llosgwyd ei weddillion yn amlogfa Treforus.

Awdur

Y Parchedig Ddr Richard Leonard Hugh, (1913 - 1983)

Ffynonellau

Seiliwyd yn bennaf ar 'Ffeil George Parcell' yng ngofal y teulu

adroddiadau yn yr *The Evening Post*

llyfr cofnodion eglwys Saron, Gendros,

a *Rhaglen Sul o Fawl* (28 Mai 1950), 28 Mai 1950

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20746785](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

